
HARDDWCH DYSG DOETHINEB

YSGOL GLAN CLWYD

Pecyn Gwybodaeth

# Pennaeth Ysgol Glan Clwyd



Annwyl ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn swydd y Pennaeth yn Ysgol Glan Clwyd.
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno gyda thîm o staff ymroddedig a brwdfrydig sydd yn credu yn yr ysgol a'r hyn maen nhw'n wneud.

Mae'r ysgol wedi bod drwy gyfnod o newidiadau mawr yn ystod y blynyddoedd diweddar, yn bennaf wrth i safle'r ysgol gael ei adnewyddu fel rhan o gynllun moderneiddio ysgolion Sir Ddinbych. Erbyn hyn mae'r ysgol yn gallu cynnig amgylchedd dysgu gwych a chyfleusterau addysgu heb eu hail. Rhydd hyn lwyfan cadarn i baratoi'n disgyblion ar gyfer dilyn eu llwybrau mewn addysg bellach, addysg uwch neu fyd gwaith.

Breuddwyd a gweledigaeth sydd wedi bod y tu cefn i Ysgol Glan Clwyd ers ei sefydlu dros 60 mlynedd yn ôl, sef creu darpariaeth a phrofiad addysg uwchradd cwbl Gymraeg i bobl ifanc yr ardal. Nid yw hyn heb ei heriau wrth gwrs, ond mae'r twf i fod yn ysgol ar gyfer dros 1,000 o ddisgyblion yn dyst i wireddu'r freuddwyd wreiddiol honno yn ôl yn y 1950au.

Mae Ysgol Glan Clwyd yn sefydliad pwysig iawn yn yr ardal mae'n ei gwasanaethu, gyda chysylltiadau cadarn hefo nifer o ysgolion cynradd cyfagos. Mae holl amrediad addysg 11 - 18 ar gael yma, gyda'r 6ed dosbarth yn cael ei ystyried yn elfen bwysig o gyflwyniad yr ysgol.

Wrth gwrs, mae'r freuddwyd yn parhau, ac felly, mae arweiniad cryf a chlir yn angenrheidiol ar gyfer adeiladu ar a pharhau'r weledigaeth.

Ein nod fel ysgol yw Meithrin Cymry Blaengar, ac rydym yn chwilio am Bennaeth sy'n medru gweld potensial ymhob un o'n disgyblion gan roi pwyslais ar lesiant, gynhwysiant, ecwiti, a paratoi disgyblion ar gyfer eu dyfodol disglair eu hunain.

Croesawn geisiadau gan unrhyw un sydd yn ymrwymedig i barhau ar daith Ysgol Glan Clwyd i'w dyfodol llwyddiannus ei hun.

Yn gywir,

*Dr Katherine Jones*

**Dr Katherine Jones**
Cadeirydd Y Llywodraethwyr







Annwyl ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn ein hysgol. Hoffwn rannu gyda chi ein gweledigaeth am yr hyn yw rôl Pennaeth Ysgol Uwchradd Glan Clwyd.

Sefydlwyd Ysgol Uwchradd Glan Clwyd yn 1956 fel yr Ysgol Uwchradd Gyntaf Yng Nghymru i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma ffaith sy'n dod â balchder mawr i gymuned yr Ysgol, ac rydym ni fel disgyblion yn ei theimlo hi'n anrhydedd ein bod yn rhan o'r traddodiad o dderbyn addysg a phrofiadau dwyieithog. Yn bendant, mae gwaddol y Pennaeth cyntaf, Haydn Thomas, yn parhau i fod yn nerthol ar hyd coridorau'r Ysgol, ac hyderwn y bydd hyn yn parhau i gael ei hyrwyddo yn ôl ei esiampl ef.

Heb amheuaeth, mae rôl Pennaeth o fewn yr Ysgol yn anhepgor. Fel rhan allweddol o gymuned Ysgol Glan Clwyd, mi fydd Pennaeth llwyddiannus yn arwain, ysbrydoli ac ysgogi disgyblion, staff a chymuned dalgylch yr Ysgol. Mae ein cymdeithas wedi ei chyfoethogi gan amrywiaeth eang o gefndiroedd ac acenion Cymreig, gyda disgyblion yn ymgynnull ynghyd o ardaloedd gwledig a threfol Gogledd Cymru. Gellir synhwyro'r teimlad o berthyn yn reddfol o fewn cymuned yr Ysgol, a dyma agwedd bwysig yr hoffem ei chynnal. Mae'r berthynas feithringar rhwng y Pennaeth a'i disgyblion yn rhan allweddol o'r awyrgylch gydsyniol yma, felly mae'n hollbwysig fod Pennaeth yn gymwynasgar, cyfeillgar ac ystyriol.

Mae'n hanfodol hefyd fod y Pennaeth yn arweinydd cadarn, sy'n ffynnu wrth ymwneud a'i gyd-weithwyr, ei ddisgyblion â'u rhieni yn ogystal ac aelodau cymuned allanol yr Ysgol. Mae'n sylfaenol fod Pennaeth Ysgol Glan Clwyd yn arddangos ymarweddiad amyneddgar a disgybledig er mwyn sicrhau fod ymddygiad ac agwedd disgyblion yr Ysgol yn rhagori. Nod Pennaeth yw sicrhau fod pob disgybl yn gwneud y cynnydd pwysig hwnnw sydd am ei alluogi i gyfrannu a ffynnu yng nghymdeithas a gweithleoedd Cymru a thu hwnt.

Mae'r awyrgylch gweithgar ac uchelgeisiol sydd gennym yn Ysgol Glan Clwyd yn allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i Feithrin Cymry Blaengar.

Yn gywir,

*Y Prîf Disgyblion*

Prîf Ddisgyblion Ysgol Glan Clwyd



# Gwybodaeth am yr ysgol

Mae Ysgol Glan Clwyd yn ysgol gyfun ar gyfer dros 1,000 o bobl ifanc 11-18 oed gyda thraddodiad o ddarparu profiadau ac addysg ddwyieithog o ansawdd i ddisgyblion ein cymuned. Dyma'r Ysgol Uwchradd Gymraeg gyntaf yng Nghymru ac rydym yn ymfalchïo yn y fraint o ddatblygu plant ac oedolion ifanc Sir Ddinbych yn ddinasyddion cwbl ddwyieithog.

Mae disgyblion yn mynychu'r ysgol o ardaloedd arfordirol yng Ngogledd y sir ac o ardaloedd cefn gwlad. Pob un ohonynt gyda'u toreth o acenion Cymreig sydd yn cyfoethogi ac yn dathlu ein hamrywiaeth Cymreig o dan yr un to!

Amcan yr ysgol yw rhoi'r sylw priodol i ddatblygiad ac addysg pob plentyn a ddaw i'n gofal gan bwysleisio pwysigrwydd profiadau ar lawr dosbarth. Byddwn hefyd yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol boed yn waith elusennol, perfformiadau ysgol gyfan, chwaraeon, profiadau cerddorol gan gynnwys Eisteddfodau yn ogystal â digwyddiadau STEM – mae'r rhestr yn hirfaith!

Bydd gweld disgyblion yn llwyddo yn y meysydd amrywiol hyn yn rhoi'r boddhad mwyaf i ni.

Er mwyn i'n disgyblion fanteisio i'r eithaf ar y profiadau a gynigir, mae'n hanfodol bwysig eu bod yn hapus yn yr ysgol. Mae hyn wrth wraidd ein gwaith beunyddiol ac rydym yn falch o'r enw da sydd gennym fel ysgol sydd yn cynnig gofal ardderchog dros ein disgyblion gan sicrhau'r sylw personol hwnnw. Ein nod yw creu awyrgylch lle mae pob unigolyn, boed yn ddisgybl neu yn athro, yn aelod o'r tîm cefnogi disgyblion neu yn staff gweinyddol yn arddangos parch, parodrwydd a'r balchder o berthyn i deulu Ysgol Glan Clwyd.

Ym mis Medi 2017, agorwyd adeilad newydd sbon yn dilyn prosiect gwerth £15.9 miliwn a ariannwyd ar y cyd gan Gyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn datblygiad yr ysgol a'i chyfleusterau arbennig galluogir i ni ddarparu disgyblion gydag addysg sy'n gweddu i'r 21ain Ganrif.

**Mae'r cyfleusterau yn cynnwys:**

- 3 swît TGCh
- 2 swît Apple Mac
- Dros 1,000 o liniaduron/Chromebook
- Canolfan Ymchwil
- Theatr pwrpasol
- Stiwdio recordio
- Stiwdio Drama, Cerddoriaeth a Chelf
- Yr unig Gae Pob Tywydd 3G maint llawn yn y sir
- Caeau eang ar gyfer pêl-droed, rygbi ac athletau
- Ardal Gemau Defnydd Amrywiol sy'n cynnwys cyrtiau tenis, cyrtiau pêl-rwyd, cyrtiau pêl-fasged a chyrtiau sboncen
- 6 labordy pwrpasol a 3 labordy arddangos
- Gweithdy Dylunio a Thechnoleg newydd sbon
- Ystafelloedd dysgu modern
- Canolfan 6ed Dosbarth
- Cyfleusterau addysgu sy'n cynnwys dosbarthiadau mawr cyfforddus, ystafelloedd grwpiau llai ac ardaloedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol
- Canolfan Anghenion Addysgol Ychwanegol sy'n cefnogi disgyblion o fewn awyrgylch cefnogol, pwrpasol
- Ystafell fwyta fawr sy'n cynnwys cyfleusterau arlwyo arbennig.








# Bod yn Aelod o dîm Ysgol Glan Clwyd

**Rydym fel ysgol yn cynnig:**

- Sefyllfa ariannol gadarn sy'n caniatáu twf a buddsoddiad yn y mannau priodol.
- Blaenoriaeth yn cael ei roi i ddatblygaid proffesiynol pob aelod o staff.
- Ysgol gydag agwedd egnïol a chynhwysol at ddysgu – gyda phawb o fewn y tîm yn dysgu ac yn datblygu.
- Tîm cryf a brwdfrydig o staff sy'n gweithredu fel teulu gan gynnal a chefnogi ei gilydd.
- Adeilad ac adnoddau rhagorol wedi eu cynllunio ar gyfer yr addysg orau yn yr 21G.
- Adnoddau digidol ac isadeiledd safonol a phwyslais ar agweddau digidol yn yr addysgeg.
- Ysgol Gymraeg yn darparu addysg Gymraeg o'r radd flaenaf yng nghanol sir Ddinbych.
- Lleoliad cyfleus yn agos i briffordd yr A55 sy'n galluogi i staff heidio atom o 8 sir wahanol.
- Ysgol Feithrin ar Safle.









# Swydd Ddisgrifiad

**Teitl Swydd:**
Pennaeth Ysgol Glan Clwyd

**Diben y swydd:**
Darparu gweledigaeth, arweiniad a chyfeiriad ar gyfer ysgol. Gyda chymorth y corff llywodraethol, byddwch yn creu a chynnal amgylchedd dysgu cynhyrchiol sy'n ymgysylltu â'r holl ddisgyblion ac yn foddhaol iddynt ac yn magu gwelliant parhaus yn safon yr addysg.

**Yn atebol i'r:**
Corff Llywodraethol

**Yn gyfrifol am:**
Safonau, holl staff ac adnoddau

Disgwylir i'r holl staff ddilyn a gweithio o fewn ffiniau'r fframwaith Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, a'r Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth.

**Penaethiaid: Prif Ofynion**
Rhaid i ddyletswyddau proffesiynol pennaeth gael eu cyflawni yn unol â'r canlynol ac yn ddarostyngedig i'r canlynol:

- Darpariaethau pob deddfwriaeth gymwys ac unrhyw orchmynion a rheoliadau sy'n weithredol o dan y ddeddfwriaeth gymwys ac yn benodol Deddf Addysg 1996(17) a'r Ddeddf;
- Offeryn llywodraethu ysgol y pennaeth;
- Unrhyw reolau, rheoliadau neu bolisïau a wneir gan y corff llywodraethol ynghylch materion y mae'n gyfrifol amdanynt, gan yr awdurdod mewn perthynas â materion nad yw'r corff llywodraethol yn gyfrifol amdanynt neu gan gyflogwyr y pennaeth;
- Pan fydd yr ysgol yn ysgol wirfoddol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol arbennig sefydledig, unrhyw ddogfen ymddiriedaeth sy'n gymwys i'r ysgol;
- Unrhyw gynllun sy'n cael ei baratoi neu ei gynnal gan yr awdurdod o dan adran 48 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(18);
- Telerau eu penodiad.

**Dirprwyo**
Ni cheir dirprwyo cyfrifoldebau proffesiynol pennaeth o dan baragraff 45.9 ac eithrio yn unol â pharagraff 47.2.

Yn ddarostyngedig i baragraff 44.1, gellir dirprwyo cyfrifoldebau pennaeth i ddirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol neu aelod arall o staff mewn modd sy'n gyson â'u hamodau cyflogaeth, gan ystyried natur a graddau eu cyfrifoldebau rheoli, a chan gynnal cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith ac ymrwymiadau eraill i bob athro yn unol â pharagraff 50.4.

**Cyfrifoldebau Proffesiynol**
Efallai y bydd yn ofynnol i bennaeth gyflawni'r dyletswyddau canlynol:
Trefniadaeth, strategaeth a datblygiad ysgol gyfan
Darparu arweinyddiaeth strategol gyffredinol a, gydag eraill, arwain, datblygu a chefnogi cyfeiriad strategol, gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r ysgol.
Datblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol.

**Addysgu**
Arwain a rheoli addysgu a dysgu drwy'r ysgol gyfan, gan gynnwys sicrhau, ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig, bod athro'n cael ei neilltuo yn amserlen yr ysgol i bob dosbarth neu grŵp o ddisgyblion:
yn y cyfnod allweddol cyntaf, ac yn yr ail, y trydydd a'r pedwerydd cyfnod allweddol, ar gyfer pynciau craidd a sylfaen ac addysg grefyddol; ac,yn y cyfnod rhagarweiniol.

**Iechyd, diogelwch a disgyblaeth**
Hyrwyddo diogelwch a lles disgyblion a staff.
Sicrhau trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion a staff.

**Rheoli staff ac adnoddau**

- Arwain, rheoli a datblygu'r staff, gan gynnwys gwerthuso a rheoli perfformiad.
- Datblygu trefniadau clir i gynghori'r corff perthnasol ar argymhellion ynglŷn â chyflog i athrawon, gan gynnwys p'un a ddylai athro yn yr ysgol a wnaeth gais i gael ei dalu ar y graddfeydd cyflog uwch gael ei dalu ar y graddfeydd hynny.
- Trefnu a lleoli adnoddau yn yr ysgol.
- Hyrwyddo cydberthnasau gwaith cydgordiol yn yr ysgol.
- Cynnal cydberthnasau â sefydliadau sy'n cynrychioli athrawon ac aelodau eraill o'r staff.
- Arwain a rheoli'r staff gan ystyried eu lles a'u disgwyliadau dilys mewn ffordd briodol, gan gynnwys y disgwyliad ynghylch cydbwysedd iach rhwng gwaith ac ymrwymiadau eraill.

**Datblygiad proffesiynol**

- Hyrwyddo cyfranogiad staff mewn datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.
- Cymryd rhan mewn trefniadau i werthuso ac adolygu eu perfformiad eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, pherfformiad athrawon eraill a staff cymorth.
- Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol pellach eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cymorth, gan gynnwys gweithgarwch ymsefydlu.

*Mwy >*





### Cyfathrebu

- Ymgynghori a chyfathrebu â'r corff llywodraethwyr, staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr.
- Gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill
- Cydlafurio a gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol, gan gynnwys cyrff ac asiantaethau allanol perthnasol.

### Hawliau a roddwyd:

Yn ogystal â darpariaethau paragraff 50, mae'r hawliau canlynol yn gymwys:

### Amser penodedig i benaethiaid

Mae hawl gan bennaeth i gael cyfnod rhesymol o amser yn ystod sesiynau ysgol, gan ystyried ei gyfrifoldebau addysgu, er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau rheoli ac arwain.

### Egwyl Ddyddiol

Mae gan bennaeth yr hawl i egwyl resymol yn ystod pob diwrnod ysgol, ac mae'n rhaid iddo drefnu bod rhywun addas yn gyfrifol am gyflawni ei swyddogaethau fel pennaeth yn ystod yr egwyl honno. Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol / Datganiad

### Diogelu

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Mae Ysgol Glan Clwyd yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl weithwyr Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion cam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Ysgol a'r Cyngor allu gweithredu pan gaiff cam-fanteisio ei adnabod.





# Manyleb Person

| Agwedd neu Faes | Yn hanfodol | Yn Ddymunol | Tystiolaeth |
|---|---|---|---|
| Cymwysterau a Phrofiad | • Statws Athro Cymwysedig<br>• Yn raddedig<br>• Yn meddu ar Gymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)<br>• Yn Bennaeth neu'n Ddirprwy llwyddiannus<br>• Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus<br>• Profiad o gyd-weithio ar faterion a blaenoriaethau sirol, rhanbarthol a chenedlaethol<br>• Profiad o arolwg uwchradd llwyddiannus Estyn neu Ofsted | • Profiad amlwg o weithio mewn ysgol Cyfrwng Cymraeg, neu Ddwyieithog, ac o'r rhyngweithio sydd o fewn y sector addysg cyfrwng Cymraeg<br>• Dealltwriaeth o'r system addysg sy 'n bodoli yng Nghymru a pholisïau sy'n deillio o Lywodraeth Cymru<br>• Profiad mewn mwy nag un ysgol uwchradd | • Llythyr cais a Ffurflen gais<br>• Tystlythyrau<br>• Cyfweliad<br>• Tasgau cyfweliad |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | • Ym medru datblygu gweledigaeth glir a chytunedig o ddiben, nod a chyfeiriad yr ysgol<br>• Gallu i hyrwyddo ymddygiad da a disgyblaeth drwy'r ysgol<br>• Yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ffyrdd o fonitro a chodi safonau cyflawniad<br>• Yn meddu ar ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd gweithredu cwricwlwm cynhwysol ac addas ac o ddatblygiadau o fewn y cwricwlwm yng Nghymru, Dyfodol Llwyddiannus<br>• Yn gyfarwydd iawn â materion diogelwch plant<br>• Dealltwriaeth o ddata cymhleth, a'u dehongli, esbonio a chyflwyno yn glir ac effeithiol<br>• Tystiolaeth o ddefnyddio rheolaeth perfformiad effeithiol i arwain a hybu gwelliannau<br>• Yn gallu ysgogi staff i wneud eu gorau<br>• Wedi ymrwymo i sicrhau gwerth-am-arian a chost-effeithiolrwydd<br>• Yn gallu trefnu cwricwlwm priodol, a'i staffio'n effeithiol er mwyn sicrhau safon yr addysgu<br>• Yn gallu cyd-weithio'n effeithiol gyda'r Corff Llywodraethol i'w gynorthwyo i ymateb i'w gyfrifoldebau<br>• Yn gallu cyd-weithio'n effeithiol ac yn adeiladol gyda'r Awdurdod Lleol a GWE<br>• Yn gallu sicrhau bod rhieni'n gwybod am y cwricwlwm cyfan, cyrhaeddiad a chynnydd eu plant, a gweithgaredd yr ysgol<br>• Yn barod i ymateb i lais disgyblion, gan sicrhau trefniadau i wneud hynny | • Yn gyfarwydd ag arferion da dysgu ac addysgu, gan ddefnyddio'r profiad a'r wybodaeth yna er budd yr ysgol<br>• Yn gallu cadw cydbwysedd rhwng byw a gweithio<br>• Yn deall pwysigrwydd a threfniadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus | • Llythyr cais a Ffurflen gais<br>• Tystlythyrau<br>• Cyfweliad<br>• Tasgau cyfweliad |
| Medrau a Rhinweddau | • Yn awyddus ac yn frwd dros addysg gyfrwng Cymraeg gan gyfrannu'n llawn i fywyd a gwaith yr ysgol - yn gyrsiol ac yn allgyrsiol<br>• Ymroddiad llwyr i'r disgyblion a'u dysgu, eu lles, a'u diogelwch<br>• Yn gallu gwneud a chyfiawnhau penderfyniadau anodd a rheoli'r broses o newid yn effeithiol<br>• Yn gyfathrebwr rhwydd ac effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig<br>• Yn onest ac yn ddibynadwy, ac yn parchu cyfrinachedd<br>• Yn meddu ar fedrau rhyngbersonol da<br>• Yn gallu cyd-weithio mewn tîm<br>• Yn medru dirprwyo'n effeithiol<br>• Yn gallu ysgogi eraill – yn staff ac yn ddisgyblion, i sicrhau llwyddiant<br>• Yn gallu ennill parch rhanddeiliaid eraill – yn enwedig staff a disgyblion a rhieni<br>• Yn gallu delio'n briodol ac yn sensitif â phobl a gweithio tuag at gymodi<br>• Yn rhugl ac yn hyderus ddwyieithog yn ysgifennedig ac ar lafar | • Yn meddu ar fedrau TGCh da er mwyn ysgogi a manteisio ar holl agweddau a manteision e-weinyddu<br>• Yn awyddus i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol | • Llythyr cais a Ffurflen gais<br>• Tystlythyrau<br>• Cyfweliad<br>• Tasgau cyfweliad |

# Telerau'r swydd a sut i ymgeisio

**Rhif y swydd:**
**YYGC00334W1RDE**

**Telerau'r swydd:**
**Amrediad Cyflog: L28 - L34 (£93,236 - £107,996)**

**Dyddiad Cychwyn:**
**1af o Fedi 2024**

**Sut i ymgeisio?**
Gallwch wneud cais trwy eteach a gwefan Sir Ddinbych.
Llenwch y ffurflen ar wefan Cyngor Sir Dinbych **www.sirddinbych.gov.uk**
Amlinellwch ar eich ffurflen gais sut rydych chi'n cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd hon yn eich datganiad ategol.

**Dyddiad cau'r swydd yw:**
**Dydd Llun, 8 Ebrill 2024**

**Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal:**
**Dydd Iau a Gwener, 25 a 26 Ebrill 2024**

Os hoffech drefnu i ymweld â'r ysgol, neu am unrhyw wybodaeth ychwanegol cysylltwch â Ceri Davies, Arweinydd Busnes Clwstwr Glan Clwyd ar:
**swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk** neu 01745 582611
Byddwn ar gael i ddelio ag unrhyw ymholiadau yn ystod y gwyliau Pasg os oes angen.

**Bydd y penodiad yn amodol ar wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.**








# Meithrin Cymry Blaengar

Cydweithio fel teulu i gyflawni'r gorau



YSGOL GLAN CLWYD